



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 Rhif 88 (Cy. 7)

2015 No. 88 (W. 7)

AFON, CYMRU

RIVER, WALES

**PYSGODFEYDD EOGIAID A DŴR
CROYW**

**SALMON AND FRESHWATER
FISHERIES**

Gorchymyn Gwahardd Cadw neu
Ollwng Pysgod Byw
(Rhywogaethau Penodedig)
(Cymru) 2015

The Prohibition of Keeping or
Release of Live Fish (Specified
Species) (Wales) Order 2015

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae erthygl 3(1) yn gwahardd cadw neu ollwng yng Nghymru, heb drwydded a ddyroddwyd o dan Ddeddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980 ("y Ddeddf"), unrhyw rywogaethau o bysgod dŵr croyw anfrodorol byw, neu wyau byw pysgod o'r fath, sy'n perthyn i'r urddau tacsonomaidd a restrir yn y tabl yn Rhan 1 o'r Atodlen.

Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys pan fo gan berson drwydded i gyflwyno'r pysgod hynny o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 708/2007 ynghylch defnyddio rhywogaethau estron a rhai sy'n absennol yn lleol mewn dyframaethu neu pan fo hysbysiad wedi ei gyflwyno sy'n caniatáu i berson symud y pysgod hynny o dan Reoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy'n Absennol yn Lleol mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2011 (O.S. 2011/2292) (erthygl 1(4)). Yn ogystal, nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i gadw neu ollwng pysgod byw mewn dyfroedd mewndirol (erthygl 1(5)). Nid yw'r gwaharddiad yn erthygl 3(1) yn gymwys mewn perthynas â physgod a restrir yn y tabl yn Rhan 2 o'r Atodlen (erthygl 3(2)).

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

Article 3(1) prohibits the keeping or release in Wales, without a licence issued under the Import of Live Fish (England and Wales) Act 1980 ("the Act"), of any species of live non-native freshwater fish, or the live eggs of any such fish, belonging to the taxonomic orders listed in the table in Part 1 of the Schedule.

This Order does not apply where a person holds a permit for the introduction of those fish under Council Regulation (EC) No. 708/2007 concerning use of alien and locally absent species in aquaculture or has been served with a notice permitting movement in relation to those fish under the Alien and Locally Absent Species in Aquaculture (England and Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/2292) (article 1(4)). This Order also does not apply to the keeping or release of live fish in inland waters (article 1(5)). The prohibition in article 3(1) does not apply in relation to fish listed in the table in Part 2 of the Schedule (article 3(2)).

Mae'n drosedd o dan adran 3 o'r Ddeddf i unrhyw berson gadw neu ollwng unrhyw un neu ragor o'r rhywogaethau o bysgod a restrir yn Rhan 1 o'r Atodlen i'r Gorchymyn hwn heb drwydded ddilys. Mae adran 3 hefyd yn ei gwneud yn drosedd i fynd yn groes i delerau trwydded. Mae person sy'n cyflawni'r troseddau yn adran 3 yn atebol, ar gollfarn ddiannod, i ddirwy nad yw'n fwy na lefel 4 ar y raddfa safonol.

Mae erthygl 4 o'r Gorchymyn hwn yn dirymu Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) 1998 (O.S. 1998/2409) ("Gorchymyn 1998") o ran Cymru. Mae hefyd yn dirymu Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003 (O.S. 2003/416 (Cy. 60)) a rheoliad 29 o Reoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy'n Absennol yn Lleol mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2011 (O.S. 2011/2292) ("Rheoliadau 2011"), yr oeddent ill ddau yn diwygio Gorchymyn 1998. Dirymwyd Gorchymyn 1998, Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Lloegr) 2003 (O.S. 2003/25) a rheoliad 29 o Reoliadau 2011 o ran Lloegr gan Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Lloegr) 2014 (O.S. 2014/143).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, paratowyd Asesiad Effaith Rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

It is an offence under section 3 of the Act for any person to keep or release any of the species of fish listed in Part 1 of the Schedule to this Order without a valid licence. Section 3 also makes it an offence to contravene the terms of a licence. A person who breaches the offences in section 3 is liable on summary conviction to a fine not exceeding level 4 on the standard scale.

Article 4 of this Order revokes the Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) Order 1998 (S.I. 1998/2409) ("the 1998 Order") in relation to Wales. It also revokes the Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) (Amendment) (Wales) Order 2003 (S.I. 2003/416 (W.60)) and regulation 29 of the Alien and Locally Absent Species in Aquaculture (England and Wales) Regulations 2011 (S.I. 2011/2292) ("the 2011 Regulations"), both of which made amendments to the 1998 Order. The 1998 Order, the Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) (Amendment) (England) Order 2003 (S.I. 2003/25) and regulation 29 of the 2011 Regulations were revoked in relation to England by the Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) (England) Order 2014 (S.I. 2014/143).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to this Order. As a result, a Regulatory Impact Assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with this Order. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

2015 Rhif 88 (Cy. 7)

2015 No. 88 (W. 7)

AFON, CYMRU

RIVER, WALES

**PYSGODFEYDD EOGIAID A DŴR
CROYW**

**SALMON AND FRESHWATER
FISHERIES**

Gorchymyn Gwahardd Cadw neu
Ollwng Pysgod Byw
(Rhywogaethau Penodedig)
(Cymru) 2015

The Prohibition of Keeping or
Release of Live Fish (Specified
Species) (Wales) Order 2015

Gwnaed 28 Ionawr 2015

Made 28 January 2015

*Gosodwyd gerbron Cynulliad
Cenedlaethol Cymru* 2 Chwefror 2015

*Laid before the National Assembly
for Wales* 2 February 2015

Yn dod i rym 27 Chwefror 2015

Coming into force 27 February 2015

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(1) o ran mesurau sy'n ymwneud â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd(2).

The Welsh Ministers are designated for the purposes of section 2(2) of the European Communities Act 1972(1) in relation to measures relating to the common agricultural policy of the European Union(2).

Mae Gweinidogion Cymru, yn unol ag adran 1(2) o Ddeddf Mewnforio Pysgod Byw (Cymru a Lloegr) 1980(3) ("y Ddeddf") ("the Act") wedi ymgynghori â Chorff Adnoddau Naturiol Cymru a Natural England ac unrhyw bersonau eraill y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol, ac maent o'r farn y gallai'r rhywogaethau o bysgod byw, neu wyau byw pysgod, y mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys iddynt gystadlu yn erbyn, dadleoli, ysglyfaethu neu niweidio

The Welsh Ministers have, in accordance with section 1(2) of the Import of Live Fish (England and Wales) Act 1980(3) ("the Act") ("y Ddeddf") consulted the Natural Resources Body for Wales and Natural England and such other persons as the Welsh Ministers consider appropriate, and are of the opinion that the species of live fish, or the live eggs of fish, to which this Order applies might compete with, displace, prey

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) ac adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7) a Rhan 1 o'r Atodlen iddi.

(2) O.S. 2010/2690.

(3) 1980 p. 27; diwygiwyd adran 132 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 (p. 43) a pharagraff 8 o Atodlen 9 iddi, adran 105(1) o Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (p. 16) a pharagraff 62 o Atodlen 11 iddi, adran 37(2) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (p. 29), rheoliad 45 o O.S. 2009/463 a pharagraff 5 o Atodlen 2 iddo, ac erthygl 4(1) o O.S. 2013/755 (Cy. 90) a pharagraff 158 o Rhan 1 o Atodlen 2 iddo.

(1) 1972 c.68. Section 2(2) was amended by section 27(1)(a) of the Legislative and Regulatory Reform Act 2006 (c.51) and by section 3(3) of, and Part 1 of the Schedule to, the European Union (Amendment) Act 2008 (c.7).

(2) S.I. 2010/2690.

(3) 1980 c. 27; section 1 was amended by section 132 of, and paragraph 8 of Schedule 9 to, the Environmental Protection Act 1990 (c. 43), section 105(1) of, and paragraph 62 of Schedule 11 to, the Natural Environment and Rural Communities Act 2006 (c. 16), section 37(2) of the Fisheries Act 1981 (c. 29), regulation 45 of and paragraph 5 of Schedule 2 to S.I. 2009/463, and article 4(1) of and paragraph 158 of Part 1 of Schedule 2 to S.I. 2013/755 (W.90).

cynefin unrhyw bysgod dŵr croyw, pysgod cregyn neu eogiaid yng Nghymru a Lloegr.

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 1(1) o'r Ddeddf, ac sy'n arferadwy bellach ganddynt hwy(1), ac adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972.

Enwi, cychwyn a chymhwys

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Cymru) 2015 a daw i rym ar 27 Chwefror 2015.

(2) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Mae erthygl 4(c) yn gymwys o ran Cymru ac mae i "Cymru" ("*Wales*"), at ddibenion y paragraff hwn yn unig, yr un ystyr ag a roddir i "Wales" yn rhinwedd adran 158(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(2).

(4) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran cyflwyno unrhyw bysgod byw gan berson –

- (a) y dyroddwyd trwydded iddo o dan Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 708/2007(3) o ran defnyddio rhywogaethau estron a rhywogaethau sy'n absennol yn lleol mewn dyframaethu, neu
- (b) y cyflwynwyd hysbysiad iddo o dan reoliad 7(2)(b) neu (3)(b) (hysbysiau sy'n caniatáu symud) o Reoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy'n Absennol yn Lleol mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2011(4).

(5) Nid yw'r Gorchymyn hwn yn gymwys i gadw neu ollwng pysgod byw mewn dyfroedd mewn dirol.

on or harm the habitat of any freshwater fish, shellfish or salmon in England and Wales.

The Welsh Ministers make the following Order in exercise of the powers conferred by section 1(1) of the Act, now exercisable by them(1), and section 2(2) of the European Communities Act 1972.

Title, commencement and application

1.—(1) The title of this Order is the Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) (Wales) Order 2015 and it comes into force on 27 February 2015.

(2) Subject to paragraph (3), this Order applies in relation to Wales.

(3) Article 4(c) applies in relation to Wales and "Wales" ("*Cymru*"), for the purposes of this paragraph only, has the same meaning as it has by virtue of section 158(1) of the Government of Wales Act 2006(2).

(4) This Order does not apply in relation to the introduction of any live fish by a person who has been

- (a) issued with a permit under Council Regulation (EC) No. 708/2007(3) concerning use of alien and locally absent species in aquaculture, or
- (b) served with a notice under regulation 7(2)(b) or (3)(b) (notices permitting movement) of the Alien and Locally Absent Species in Aquaculture (England and Wales) Regulations 2011(4).

(5) This Order does not apply to the keeping or release of live fish in inland waters.

(1) Yn rhinwedd erthygl 2(a) o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo, trosglwyddwyd swyddogaethau sy'n arferadwy o ran Cymru o dan adran 1 o'r Ddeddf i Gynulliad Cenedlaethol Cymru (fel y'i cyfansoddwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 (p. 38)) yn gydedol ag unrhyw Weinidog y Goron y maent yn arferadwy ganddo. Trosglwyddwyd y swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi.

(2) 2006 p. 32. Mae diwygiadau i adran 158 nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn hwn.

(3) O.J. Rhif L 168, 28.06.07, t. 1 fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (UE) Rhif 304/2011, O.J. Rhif L 88, 4.4.2011, t. 1.

(4) O.S. 2011/2292.

(1) By virtue of article 2(a) of and Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672), functions exercisable in relation to Wales under section 1 of the Act were transferred to the National Assembly for Wales (as constituted under the Government of Wales Act 1998 (c.38)) concurrently with any Minister of the Crown by whom they are exercisable. Those functions of the National Assembly for Wales were transferred to the Welsh Ministers by virtue of section 162 of and paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006 (c.32).

(2) 2006 c.32. There are amendments to section 158 which are not relevant to this Order.

(3) O.J. No L 168, 28.06.07, p.1 as last amended by Regulation (EU) No 304/2011, O.J. No L 88, 4.4.2011, p. 1.

(4) S.I. 2011/2292.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn —

mae i “dyfroedd mewndirol” (“*inland waters*”) yr un ystyr ag yn adran 221 o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(1) ond nad ydynt yn cynnwys pyllau gerddi sy’n llai na 0.4 hectar o faint, nad ydynt yn cael eu defnyddio ar gyfer pysgota, nad oes ganddynt gysylltiadau â dyfroedd eraill ac sydd wedi eu lleoli o fewn cwrtil eiddo preswyl; ac ystyr “pysgod dŵr croyw” (“*freshwater fish*”) yw unrhyw bysgod sy’n byw, neu’n gallu byw, mewn dŵr croyw.

Gwahardd cadw neu ollwng pysgod neu wyau penodedig

3.—(1) Ni chaiff neb, ac eithrio o dan awdurdod trwydded a roddwyd gan Weinidogion Cymru, gadw neu ollwng unrhyw bysgod dŵr croyw byw, neu wyau byw unrhyw bysgod dŵr croyw—

- (a) sy’n perthyn i urdd dacsonomaidd a restrir yng nghlofn gyntaf y tabl yn Rhan 1 o’r Atodlen; a
- (b) nad ydynt yn frodorol i Gymru a Lloegr.

(2) Nid yw’r gofyniad am drwydded ym mharagraff (1) yn gymwys o ran unrhyw rywogaethau o bysgod anffrodorol a bennir yn nhrydedd glofn y tabl yn Rhan 2 o’r Atodlen ac sy’n perthyn i urdd dacsonomaidd y cyfeirir ati ym mharagraff (1).

Dirymiadau

4. Dirymir y canlynol—

- (a) Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Cymru) 1998(2);
- (b) Gorchymyn Gwahardd Cadw neu Ollwng Pysgod Byw (Rhywogaethau Penodedig) (Diwygio) (Cymru) 2003(3); ac
- (c) rheoliad 29 o Reoliadau Rhywogaethau Estron a Rhywogaethau sy’n Absennol yn Lleol mewn Dyframaethu (Cymru a Lloegr) 2011(4).

Interpretation

2. In this Order—

“freshwater fish” (“*pysgod dŵr croyw*”) means any fish living in, or able to live in, fresh water; and

“inland waters” (“*dyfroedd mewndirol*”) has the same meaning as in section 221 of the Water Resources Act 1991(1) except that it does not include garden ponds less than 0.4 hectares in area, which are not fished, have no links to other waters and are located within the curtilage of a residential property.

Prohibition of keeping or release of specified fish or eggs

3.—(1) No person may, except under the authority of a licence granted by the Welsh Ministers, keep or release any live freshwater fish, or the live eggs of any freshwater fish, which—

- (a) belongs to a taxonomic order specified in the first column of the table in Part 1 of the Schedule; and
- (b) is not native to England and Wales.

(2) The requirement for a licence in paragraph (1) does not apply in relation to any species of non-native fish that is specified in the third column of the table in Part 2 of the Schedule and belongs to a taxonomic order referred to in paragraph (1).

Revocations

4. The following are revoked—

- (a) Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) Order 1998(2);
- (b) Prohibition of Keeping or Release of Live Fish (Specified Species) (Amendment) (Wales) Order 2003(3); and
- (c) regulation 29 of the Alien and Locally Absent Species in Aquaculture (England and Wales) Regulations 2011(4).

(1) 1991 p. 57. Mae diwygiadau i adran 221 nad ydynt yn berthnasol i’r Gorchymyn hwn.

(2) O.S. 1998/2409; diwygiwyd gan erthygl 2 o O.S. 2003/25, erthygl 2 o O.S. 2003/416 a rheoliad 29 o O.S. 2011/2292. Dirymwyd O.S. 1998/2409 o ran Lloegr gan erthygl 4(a) o O.S. 2014/143.

(3) O.S. 2003/416 (Cy. 60)

(4) O.S. 2011/2292. Dirymwyd rheoliad 29 o O.S. 2011/2292 o ran Lloegr gan erthygl 4(c) o O.S. 2014/143.

(1) 1991 c.57. There are amendments to section 221 which are not relevant to this Order.

(2) S.I. 1998/2409; amended by article 2 of S.I. 2003/25, article 2 of S.I. 2003/416 and regulation 29 of S.I. 2011/2292. S.I. 1998/2409 has been revoked in relation to England by article 4(a) of S.I. 2014/143.

(3) S.I. 2003/416 (W.60).

(4) S.I. 2011/2292. Regulation 29 of S.I. 2011/2292 has been revoked in relation to England by article 4(c) of S.I. 2014/143.

Carl Sargeant

Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol, un o Weinidogion
Cymru

Minister for Natural Resources, one of the Welsh
Ministers

28 Ionawr 2015

28 January 2015

YR ATODLEN Erthygl 3
Rhestr o Bysgod

RHAN 1

Urddau tacsonomaidd y mae unrhyw rywogaethau o bysgod dŵr croyw nad ydynt yn frodorol i Gymru a Lloegr yn perthyn na chaniateir eu cadw na'u gollwng heb drwydded

<i>Urdd dactsonomaidd</i>	<i>Enw cyffredin</i>
Acipenseriformes	Styrsiwn, Pysgod Sbodol
Amiiformes	Morgwn
Anguilliformes	Llysywod
Atheriniformes	Pysgod Ystlys Arian
Batrachoidiformes	Môr-lyffaint
Beloniformes	Môr-nodwydd, Pysgodyn hedegog
Ceratodontiformes	Pysgod ysgyfeiniog
Characiformes	Tetrâu, Characinaid, Pensafwyr
Clupeiformes	Penwaig, Brwyniaid, Gwangod
Cypriniformes	Carp, Gwrachod, Pilcod
Cyprinodontiformes	Pysgod abwyd
Esociformes	Penhwyaid
Gasterosteiformes	Crethyll
Gonorynchiformes	Kneriidae
Gymnotiformes	Llafnbysg
Lepidosyreniformes	Pysgod ysgyfeiniog De Americanaidd ac Affricanaidd
Lepisosteiformes	Môr-nodwyddau neu Gornbigau
Myliobatiformes	Morgathod duon
Osmeriformes	Brwyniaid Conwy
Osteoglossiformes	Arapaimaod
Perciformes	Draenogiaid, Glöynnod y môr, Ciclidau, Tiwnaod
Percopsiformes	Draenogiaid brithion, Pysgod ogof
Petromyzontiformes	Llysywod pendoll
Pleuronectiformes	Lledod mwd a Lledod chwithig
Polypteriformes	Cyrsbysg
Salmoniformes	Eogiaid, Brithyllod, Powaniaid
Scorpaeniformes	Pysgod dreiniog, Sgorpioniaid

SCHEDULE Article 3
List of Fish

PART 1

Taxonomic orders to which any species of freshwater fish that is not native to England and Wales belongs that may not be kept or released without a licence

<i>Taxonomic Order</i>	<i>Common name</i>
Acipenseriformes	Sturgeons, Paddlefish
Amiiformes	Bowfin
Anguilliformes	Eels
Atheriniformes	Silversides
Batrachoidiformes	Toadfish
Beloniformes	Needlefish, Flyingfish
Ceratodontiformes	Lungfish
Characiformes	Tetras, Characins, Headstanders
Clupeiformes	Herrings, Anchovies, Shads
Cypriniformes	Carps, Loaches, Minnows
Cyprinodontiformes	Killifish, Pupfish
Esociformes	Pike
Gasterosteiformes	Sticklebacks
Gonorynchiformes	Shellears
Gymnotiformes	Knifefish
Lepidosyreniformes	South American and African Lungfish
Lepisosteiformes	Gar or Garpike
Myliobatiformes	Stingrays
Osmeriformes	Smelt, Noodlefish
Osteoglossiformes	Arapaima, Bonytongues
Perciformes	Perches, Butterflyfish, Cichlids, Tunas
Percopsiformes	Trout-Perch, Cavefish
Petromyzontiformes	Lampreys
Pleuronectiformes	Flounders and Sole
Polypteriformes	Bichirs
Salmoniformes	Salmon, Trout, Whitefish
Scorpaeniformes	Scorpionfish, Sculpins

Siluriformes	Morfleiddiaid
Synbranchiformes	Llysywod pigog
Syngnathiformes	Pibellau môr, Morfeirch
Tetraodontiformes	Chwyddbysgod

Siluriformes	Catfish
Synbranchiformes	Spiny Eels
Syngnathiformes	Pipefish, Seahorses
Tetraodontiformes	Pufferfish

RHAN 2

Rhywogaethau o bysgod nad ydynt yn frodorol i Gymru a Lloegr y caniateir eu cadw neu eu gollwng heb drwydded

<i>Urdd dacsonomaidd</i>	<i>Enw cyffredin</i>	<i>Enw'r rhywogaeth</i>
Cypriniformes	Carp a phob amrywiaeth ohono	<i>Cyprinus carpio</i>
	Pysgod aur a phob amrywiaeth ohonynt	Carassius auratus
	Orffod	<i>Leuciscus idus</i>
Salmoniformes	Brithyllod seithliw, ac eithrio'r Brithyllod Arian Esgynnol	<i>Oncorhynchus mykiss</i> ac eithrio'r Brithyllod Arian Esgynnol

©©Hawlfraint y Goron 2015

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

PART 2

Species of fish that are not native to England and Wales that may be kept or released without a licence

<i>Taxonomic Order</i>	<i>Common name</i>	<i>Species name</i>
Cypriniformes	Common carp and its variants	<i>Cyprinus carpio</i>
	Goldfish and its variants	Carassius auratus
	Ide or Orfe	<i>Leuciscus idus</i>
Salmoniformes	Rainbow Trout other than Anadromous Steelhead	<i>Oncorhynchus mykiss</i> other than Anadromous Steelhead

© Crown copyright 2015

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2015 Rhif 88 (Cy. 7)

AFON, CYMRU

**PYSGODFEYDD EOGIAID A DŴR
CROYW**

Gorchymyn Gwahardd Cadw neu
Ollwng Pysgod Byw
(Rhywogaethau Penodedig)
(Cymru) 2015

WELSH STATUTORY
INSTRUMENTS

2015 No. 88 (W. 7)

RIVER, WALES

**SALMON AND FRESHWATER
FISHERIES**

The Prohibition of Keeping or
Release of Live Fish (Specified
Species) (Wales) Order 2015

£6.00

W2196/02/15

ON

ISBN 978-0-348-11041-8

